**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol __Manod__ Cynradd**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2** |
| Gwybodaeth dda gan y disgyblion am aml gredoau gan ddeall y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng gwyliau gwahanol grefyddau. Disgyblion yn datblygu'n dda, trwy anogaeth, i allu gofyn cwestiynau sylfaenol ac i ymhelaethu ar yr wybodaeth honno. Yn gallu dwyn i gof wybodaeth a ddysgwyd gan addasu'r dysgu i fywyd pob dydd heddiw. Yn hunan asesu trwy ddefnyddio amrywiol strategaethau yn unol â'r gofyn. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Llunio cynlluniau gwaith ar gyfer y maes llafur Addysg Grefyddol diwygiedig, a chan ganolbwyntio ar 'gwestiwn mawr', rhoi llawer iawn o bwyslais ar ddatblygu sgiliau meddwl disgyblion a'u gallu hwy i ymchwilio. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 1** |
| Cynllun gwasanaethau ysgol gyfan rhagorol yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio a thrafod sydd wedi sicrhau datblygiad ysbrydol a moesol da iawn o du'r disgyblion. Rheithor hefyd yn ymweld yn rheolaidd. Cynlluniau gwaith diwygiedig yn dreiddgar ac yn rhoi pwyslais ar gwestiwn mawr. Y disgyblion yn deall a defnyddio cysyniadau megis maddeuant ac ufudd-dod, yn defnyddio termau crefyddol ac yn gallu ymhelaethu wrth eu trafod. Amser cylch, Webster Stratton, Ysgol Dina ac Anogwr Dysgu yn rhoi cyfleoedd i blant drafod teimladau, pryderon ac emosiynau. Y disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol yn y gymuned leol ac ehangach ac yn gweld gwerth mewn cefnogi nifer o elusennau, a thrwy hynny wedi datblygu ymwybyddiaeth ardderchog o'r angen i roi a rhannu gyda rhai llai ffodus na hwy eu hunain. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Datblygu perthynas plant ac oedolion hŷn ac anabl y gymuned leol ymhellach eto trwy eu gwahodd i'r ysgol am brynhawn o groeso. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad: Hydref 2008** | |
| **Arwyddwyd: Carys E Jones (Pennaeth)** | |